# Cynnig i gael Ardal Gwella Busnes (AGB) ym Mangor

DRAFFT 29/6/15

AGB Bangor (Cynigydd yr AGB)
Mehefin 2015

*Business Improvement District (BID)*

# 1 Cyflwyniad

## Rhagair

Pam rydyn ni angen Ardal Gwella Busnes (AGB) ym Mangor?

Mae Ardal Gwella Busnes yn gynllun sydd yn cael ei arwain gan fusnesau. Ei nod yw dod â phawb sy'n dibynnu ar ganol y ddinas at ei gilydd er mwyn iddynt ffynnu yn economaidd. Byddant yn cydweithio ar brosiectau sy'n gwella canol y ddinas ac yn gwneud gwahaniaeth i'w hamgylchedd masnachu eu hunain.

Mae llawer o bobl eisiau gwella sut mae'r ddinas a'r cyffiniau yn edrych, ac maent yn frwd iawn dros weld hynny'n digwydd. Maent hefyd am weld gweithgareddau a digwyddiadau siopa, twristiaeth a diwylliannol yn cael eu rheoli mewn ffordd fwy effeithiol a chydlynol. **Mae sicrhau bod y sectorau yma yn cydweithio yn hollbwysig i gael lleoliad llwyddiannus sydd wedi'i reoli'n dda.**

Ar ôl gwrando ar beth oedd gan fusnesau i'w ddweud yn ystod ein gwaith ymgynghori dros y flwyddyn ddiwethaf, mae eich barn wedi cael ei gynnwys yn y cynnig hwn. Menter dan arweiniad busnesau yw AGB, ac mae'n rhoi'r pŵer i fusnesau reoli eu hamgylchedd gweithio eu hunain, a hynny er budd eu busnesau, eu gweithwyr a'u cwsmeriaid. Gyda'i gilydd, bydd busnesau yn nodi'r blaenoriaethau a'r gwasanaethau sydd eu hangen yn eu barn nhw i ychwanegu gwerth at y gwasanaethau presennol, ac yna yn cytuno trwy broses bleidleisio ffurfiol ar lefel y buddsoddiad i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni.

Ar hyn o bryd, mae 187 AGB yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Ardaloedd Gwella Busnes hyn wedi'u cynllunio i gyd-fynd ag anghenion busnesau yn yr ardal benodol honno, ac yn gyffredinol maen nhw'n canolbwyntio ar y canlynol:

- gwella'r amodau masnachu i fusnesau,
- gwella gallu'r ardal leol i gystadlu â llefydd eraill, a
- lleihau faint mae'n ei gostio i fusnesau weithredu.

Ym mis Awst, byddwn yn gofyn i chi bleidleisio ar y cynnig hwn. Os bydd mwyafrif y busnesau yn cefnogi'r cynnig, bydd Ardal Gwella Busnes yn cael ei sefydlu ym Mangor, ac yn dechrau ar 1 Ebrill 2016. Dyma ein cyfle i gael rheolaeth ar y prif bethau sy'n creu canol dinas lwyddiannus, a'r cyfle i chi wneud y penderfyniadau a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar eich busnes, a gwneud gwahaniaeth go iawn.

Haydn Davies

Cadeirydd Fforwm Busnes Bangor

## AGB ar gyfer Bangor

**Beth ydi Ardal Gwella Busnes (AGB)?**

Ardal Gwella Busnes ydi ardal benodol lle mae busnesau'n cydweithio efo'i gilydd ac yn buddsoddi mewn gwasanaethau, prosiectau a digwyddiadau arbennig y cytunwyd arnynt o flaen llaw.

Mae cylch gwaith AGB Bangor wedi cael ei benderfynu a bydd yn cael ei reoli gennych chi, y busnesau sy'n aelodau. Wrth i chi reoli'r AGB, byddwch yn chwarae rôl allweddol wrth benderfynu pa brosiectau a mentrau fydd yn digwydd yn ystod tymor pum mlynedd yr AGB. Bydd yr AGB yn cael ei ariannu gan ardoll (*levy*) o 1.5%. Mae faint o ardoll y byddwch yn ei dalu yn seiliedig ar eich gwerth ardrethol (*rateable value*). Bydd cytundeb i sefydlu AGB yn cael ei wneud drwy bleidlais drwy'r post. Rhaid i chi bleidleisio er mwyn dweud eich dweud. Nid yw'r AGB yn gallu cymryd lle gwasanaethau craidd y sector cyhoeddus ac mae'n rhaid iddo gynnig enillion clir ar y buddsoddiad (*clear return on investment*) i'r rheiny sy'n talu'r ardoll.

Gwefan: www.agbbangorbid.com
Cyfeiriad e-bost: bid@gwynedd.gov.uk

Mae AGB Bangor wedi'i arwain gan Fwrdd AGB sy'n cynnwys cynrychiolwyr gwirfoddol o wahanol sectorau busnes a sefydliadau yn y ddinas. Ar ôl ymgynghori, mae'r grŵp wedi creu cynllun busnes pum mlynedd mewn tri maes gweithgarwch.

**Y bleidlais**

Bydd tua 330 o fusnesau ym Mangor yn cael bwrw pleidlais ynghylch talu ardoll ychwanegol o 1.5% ar ben yr ardrethi busnes, sef arian ychwanegol i fynd i gronfa a fydd yn cael ei defnyddio at gynnal gweithgareddau a mentrau i gael dinas fwy bywiog ac economaidd lwyddiannus. Dyma'r amser i fusnesau a'r sector cyhoeddus ddod at ei gilydd i geisio creu canol dinas sy'n brysurach ac yn fwy deniadol. Mae Cyngor Gwynedd o blaid y cynnig ac mae ymrwymiad y Cyngor i AGB Bangor wedi'i ddangos drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu a sefydlu'r AGB ac fel sefydliad mawr sy'n talu ardrethi.

Y busnesau eu hunain fydd yn berchen ar yr AGB a nhw fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n iawn. Bydd Bwrdd yn goruchwylio'r AGB a bydd yn cael ei werthuso'n annibynnol. Bydd pob ceiniog yn cyfrif. Rydyn ni'n gwybod fod Bangor yn ddinas wych a llawer o bethau i'w gwneud, i'w gweld a'u profi yma. Rydyn ni hefyd yn gwybod fod angen gwneud llawer yn barhaus i wella pethau drwy'r amser, yn enwedig yng nghanol y ddinas. Bydd AGB Bangor yn galluogi hyn i ddigwydd.

**Yr AGB: Pam?**

Pwrpas yr AGB yw esgor ar gydweithredu a chydweithio er mwyn gwella pethau. Byddwn yn cydweithio i wneud ein gweledigaeth yn bosibl ac yn ystod y pum mlynedd nesaf bydd canol y ddinas yn cael buddsoddiad o £635,000 yn ogystal â chael sicrwydd o ran lefelau gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd.

- Bydd dros £127,000 yn cael ei godi gan yr AGB trwy'r ardoll (*levy*) bob blwyddyn.
- Mae hynny'n £635,000 o fuddsoddiad ychwanegol yng nghanol y ddinas dros gyfnod o bum mlynedd.

Dychmygwch sut y gallai ein dyfodol edrych:

Erbyn 2020, bydd Canol Dinas Bangor wedi mynd o nerth i nerth. Bydd faint o ymwelwyr sy'n dod yma wedi codi. Bydd ein busnesau yn ffynnu a chanol y ddinas fydd un o'r canolfannau gorau ar gyfer ymwelwyr a'r cymunedau lleol a chyfagos.

Rhan allweddol o sicrhau bod hyn yn digwydd yw trwy bleidleisio o blaid AGB Bangor.

DRAFT

# 2 Beth mae'r AGB yn ei addo

Y prif bethau sy'n denu pobl i Fangor yw Treftadaeth a Diwylliant, Adloniant a Siopa. Mae gan y ddinas hanesyddol hon Eglwys Gadeiriol a Phrifysgol ac mae'n buddsoddi yn ei chymeriad diwylliannol unigryw, gyda Pontio: Canolfan Celfyddydau ac Arloesi newydd a datblygiadau Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd. Mae yma bier Fictoraidd sydd heb gael ei newid ac yma mae'r stryd fawr hiraf yng Nghymru. Mae gan Fangor lawer i'w gynnig i drigolion, ymwelwyr a myfyrwyr fel ei gilydd, o'r dewisiadau siopa, hamdden a bywyd nos amrywiol i'w threftadaeth a'i diwylliant cyfoethog.

Yn ystod gaeaf 2014, holwyd 84 o fusnesau Bangor am eu barn ynghylch canol y ddinas ac am AGB[1]. Roedd y prif faterion a blaenoriaethau y soniodd busnesau amdanynt yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys cael y parcio i gostio llai, gwella sut mae canol y ddinas yn edrych, a chael rhagor o bobl i ddod yma trwy ddigwyddiadau a hyrwyddo.

Felly, er mwyn i Fangor fod yn ddinas i **ymweld â hi ac i weithio, byw a mwynhau ynddi**, gweledigaeth yr AGB ydi bod y ddinas fel a ganlyn:


- **Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel:** Gwella delwedd Bangor trwy ei gwneud hi'n ddinas fwy deniadol a chroesawgar trwy reoli pa mor lân ydi hi a rheoli'r awyrgylch cyffredinol. Bydd tîm stryd yn ymateb yn gyflym i fonitro a sicrhau bod Bangor yn llawer glanach, a bydd blodau a gwyrddni yn dod â lliw i'r strydoedd. Bydd hyn yn agor y Stryd Fawr er mwyn ychwanegu at atyniadau pwysig eraill fel yr Eglwys Gadeiriol, Plas yr Esgob, y Brifysgol, Pontio (y Ganolfan Celfyddydau ac Arloesi newydd) a'r Pier. Bydd yr AGB yn gwneud Canol Dinas Bangor yn lle mwy croesawgar hefyd drwy gefnogi economi'r dydd a'r nos trwy fentrau lleihau troseddau. Gan gydweithio gyda'r Brifysgol, yr heddlu a Chynllun Gwarchod Tafarndai Bangor a'r Cylch, byddwn yn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel a niwsans yn ystod y dydd a'r nos.

- **Ei hyrwyddo â balchder:** byddwn yn hyrwyddo dinas Bangor fel lle gwych i ymweld â hi ar gyfer Treftadaeth a Diwylliant, Adloniant, Siopa a Dysgu. Bydd cynnal digwyddiadau o safon uchel a chyfleoedd marchnata yn ysgogi rhagor o bobl i ddod i'r canol a bydd yn denu busnesau i fuddsoddi yn y ddinas hefyd. Mae dinas Bangor mewn lleoliad eithriadol wrth odrau Eryri a gerllaw Afon Menai odidog, a dylem ei hyrwyddo â balchder. Dyma ein cyfle, fel cymuned o fusnesau, i godi'r safonau a chyflwyno Bangor fel lleoliad busnes a siopau a chyrchfan i dwristiaid.

[1] Gweler rhan 11 i gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil gyda'r busnesau.

- **Dylanwadol ac integredig:** Dyma gyfle gwych i'r gymuned busnesau ddylanwadu'n uniongyrchol ar ba ffordd fyddai orau i ddefnyddio'r arian a godir trwy'r ardoll a thrwy ffynonellau ariannu eraill er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl, a ble bydd ymwelwyr yn gweld y gwahaniaeth mwyaf. Drwy gael cyllideb sy'n targedu'r hysbysebu a gweithgareddau hyrwyddo, bydd Bangor yn gallu cystadlu â lleoliadau eraill yn y Gogledd Orllewin. Yr AGB fydd llais cymuned busnesau Bangor wrth ddatblygu'r ddinas a'r rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Chyngor Gwynedd ar faterion fel parcio a glanhau, yn ogystal â strategaethau datblygu. Bydd yr AGB yn datblygu cysylltiadau sy'n fanteisiol i bawb rhwng busnesau, y brifysgol a'r cymunedau lleol er mwyn gwneud beth sydd orau i Fangor a meithrin cyfleoedd i fusnesau newydd ac i fusnesau sydd wedi ennill eu plwyf.

Bwriad yr AGB yw **canolbwyntio ar y tri maes gweithgarwch yma**. Bydd yn llunio cynllun gweithredu manwl sydd â cherrig milltir i'w monitro bob chwarter a bydd gwerthusiad yn cael ei gynnal bob blwyddyn ar y cynnydd tuag at y targedau. Ar ôl i'r AGB gael ei sefydlu, bydd yr aelodau yn gallu dylanwadu ar ffocws yr AGB er mwyn cynnal prosiectau dan y themâu hyn sy'n cyd-fynd orau â newidiadau yn anghenion canol y ddinas.




DRAFT

# 3 Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel

Buddsoddiad yr AGB a ragwelir dros 5 mlynedd: £212,500

Gwella argraff gyntaf siopwyr, ymwelwyr a thrigolion wrth iddynt gyrraedd Bangor oedd un thema gyffredin a oedd wedi codi yn ystod yr ymgynghoriad gyda busnesau. Gyda dewisiadau deniadol eraill fel Llandudno a Chaer yn gyrchfannau poblogaidd i siopwyr, soniodd sawl busnes fod angen i Fangor gystadlu'n well gyda'r trefi a'r dinasoedd hynny er mwyn denu siopwyr ac ymwelwyr o bob cwr o Wynedd, Ynys Môn, Conwy a thu hwnt. Gan fod datblygiad cyffrous Pontio ar fin agor, mae'n bryd i ganol y ddinas fanteisio ar yr ymwelwyr y mae canolfan y celfyddydau yn debygol o'u denu.

Bydd yr AGB yn canolbwyntio ar y gweithgareddau canlynol dan y thema Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel:

- **Glanhau ychwanegol ac o'r newydd**

Byddwn yn sefydlu tîm stryd sy'n ymateb yn gyflym i ganolbwyntio ar fonitro'r gwaith o reoli a glanhau canol y ddinas. Y nod yw sicrhau bod y gwaith o lanhau'r strydoedd yn cael ei gadw i safon dderbyniol, a bod pawb yn cytuno ar faterion fel lleoliadau biniau sbwriel. Bydd yr AGB yn sicrhau bod y strydoedd yn cael eu glanhau yn fwy effeithiol na'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd e.e. mwy o lanhau yn rheolaidd yn ogystal â gwaith glanhau dwfn. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi amserlen sylfaenol o wasanaethau glanhau a bydd yn llofnodi Cytundeb Sylfaenol (*Baseline Agreement*) gyda'r AGB i sicrhau bod gweithgareddau AGB *yn ychwanegol* at y gwasanaethau presennol.

- **Mwy o wyrddni**

Byddwn yn datblygu ac yn gwella'r basgedi crog a'r planhigion sydd wedi bod yn nodwedd o Fangor yn ystod misoedd yr haf er mwyn gwneud y ddinas yn le mwy deniadol i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi.

- **Gwybodaeth yng nghanol y ddinas ac mewn ardaloedd sy'n arwain at y canol**

Bydd yr AGB yn canolbwyntio ar greu llefydd mynediad deniadol a chroesawgar i'r ddinas trwy roi sylw i'r ardaloedd y mae pobl yn cyrraedd iddynt a'r llwybrau allweddol i mewn i'r ddinas e.e. yr orsaf drenau, yr orsaf fysiau, Pontio, y Brifysgol a Bangor Uchaf, safleoedd tacsis a meysydd parcio. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy arwyddion wedi'u brandio, mapiau o safon uchel ac apiau rhyngweithiol i gyfeirio ymwelwyr at safleoedd a gwasanaethau lleol.

- **Blaen siopau**

Byddwn yn ceisio gwella blaen siopau, gan gynnwys gosod deunydd marchnata cyrchfan deniadol ar ffenestri siopau gwag. Byddai hyn yn elwa ar amrywiaeth y prif safleoedd treftadaeth sydd yn ardal Bangor – y pontydd ar draws y Fenai, Pier Bangor, Castell Penrhyn, Eglwys Gadeiriol Bangor a Phrifysgol Bangor. Byddai marchnata cyrchfan yn elwa hefyd ar leoliad gwych Bangor fel safle i ddechrau archwilio gogledd a gogledd-ddwyrain Parc Cenedlaethol Eryri.

- **Amgylchedd Diogel**

Bydd yr AGB yn ymdrechu i wneud Canol Dinas Bangor yn lle mwy croesawgar i ymwelwyr, trigolion a myfyrwyr fel ei gilydd. Gan gydweithio gyda'r Brifysgol, yr heddlu a Chynllun Gwarchod Tafarndai Bangor a'r Cylch, byddwn yn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel a niwsans yn ystod y dydd a'r nos.

**Bydd yr AGB yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i gefnogi'r gwaith o gynnal ei wasanaethau safonol mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Drwy gydweithio gyda'r Awdurdod, bydd yr AGB yn ceisio cyflawni'r gwasanaethau a'r gweithgareddau ychwanegol fel y nodwyd uchod.**

DRAFT

# 4 Hyrwyddo â balchder

Buddsoddiad yr AGB a ragwelir dros 5 mlynedd: £107,500

## Digwyddiadau a Gweithgareddau

Bydd yr AGB yn cefnogi ac yn goruchwylio rhaglen o ddigwyddiadau allweddol ar gyfer canol y ddinas. Bydd digwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol lleol ac eraill, gan gydweithio i ennyn diddordeb trigolion ac ymwelwyr, i fywiogi'r strydoedd ac i annog pawb i dreulio amser yng nghanol y ddinas.

Nod yr AGB fydd datblygu digwyddiadau newydd o ansawdd uchel, cefnogi a gwella digwyddiadau sy'n bodoli eisoes a manteisio i'r eithaf ar y rhain er budd canol y ddinas. Byddai digwyddiadau a gweithgareddau newydd a gynigir gan yr AGB yn cael eu cefnogi a'u cynnal gan bartneriaid, a gallant gynnwys y canlynol:

- **Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi a Ras y Stryd Fawr**: Diwrnod llawn dathliadau diwylliannol sy'n denu'r gymuned gyfan gan gynnwys digon o gerddoriaeth, dawnsio gwerin a bwyd a diod o Gymru. Bydd y diwrnod yn arwain at Ras Stryd Fawr Dydd Gŵyl Dewi lle byddai rhedwyr mewn gwisg draddodiadol Gymreig yn rasio o un pen y Stryd Fawr i'r llall, digwyddiad y disgwyliwn iddo roi Bangor ar y map.

- **Gŵyl Gerddoriaeth #Bangoroc** – Gŵyl gerddorol yng nghanol y ddinas sy'n manteisio ar nifer y bandiau roc sydd ym Mangor, Dyffryn Ogwen a Gogledd Cymru, gyda digwyddiadau cerddoriaeth fyw yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy gydol yr wythnos ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoliadau yn ardal yr AGB. Byddai hyn yn cynnwys cerddoriaeth ar y stryd yn ystod y dydd.

- **Wythnos y Glas**: Wythnos sy'n croesawu myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd i Ddinas Bangor. Bydd yr wythnos o weithgareddau wedi'i chynllunio a'i chynnal ar y cyd â Phrifysgol Bangor a bydd yn creu cysylltiad rhwng y myfyrwyr a'r pethau gorau sydd gan y Ddinas i'w cynnig.

Mae ein syniadau eraill yn cynnwys:

- Ceir Clasurol ar y Stryd Fawr
- Marchnad Nadolig
- Parêd Llusernau
- Diwrnod Santes Dwynwen
- Llwybr Cwrw Go Iawn
- Theatr Awyr Agored
- Wythnos Bwyd a Diod

DRAFT

Bydd yr AGB hefyd yn sefydlu **"Her Canol Dinas"** i ennyn diddordeb myfyrwyr ysgol, coleg a phrifysgol o amryw ddisgyblaethau, o ddaearyddiaeth i fusnes, cerddoriaeth i fathemateg yn eu Stryd Fawr leol. Bydd hyn yn cynnwys astudiaethau economaidd a siopa, prosiectau ymddygiad defnyddwyr a chyfleoedd entrepreneuriaeth trwy siopau dros dro (*pop-up shops*), gan ddod ag addysg a sgiliau i ganol y ddinas. Bydd yr AGB yn noddi gwobrau ac yn cynnig profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddiant i bobl o bob oedran.

## Marchnata a chysylltiadau cyhoeddus

Bydd yr AGB yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau marchnata a hyrwyddo sydd wedi'u teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol yn ardal yr AGB. Er mwyn hyrwyddo'r gymuned fusnes ym Mangor a chodi proffil Bangor yn lleol a thu hwnt, bydd yr AGB newydd yn ceisio cydlynu gweithgareddau marchnata gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol. Lle bod hynny yn bosibl, bydd yr AGB yn ceisio cefnogi ac ychwanegu gwerth at weithgareddau marchnata sy'n bodoli eisoes ac yn trefnu mentrau newydd trwy gydweithio gydag eraill. Bydd yn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gysylltu â pherchnogion eiddo gwag er mwyn ystyried cyfleoedd i fusnesau eu defnyddio.

**Cynllun Croesawu Ymwelwyr "Croeso Cynnes / Warm Welcome"**

Bydd y Cynllun Croesawu Ymwelwyr yn cynnwys gwefan Croeso Bangor gyda chyfeiriadur llety a bwytai, ac yn cynnwys cynigion arbennig dros y cyfnod y mae myfyrwyr yn graddio. Mae Bangor dafliad carreg o amrywiaeth o safleoedd o Landudno a Chonwy yn y dwyrain, Ynys Môn yn y gogledd, Caernarfon a Phen Llŷn yn y gorllewin a Pharc Cenedlaethol Eryri i gyfeiriad y de. Trwy gydredeg â'r cynllun rheoli ehangach ar gyrchfannau rhanbarthol, bydd Cynllun Croesawu Ymwelwyr Bangor yn manteisio ar ei leoliad canolog er mwyn bod yn sylfaen i ddod i adnabod y rhanbarth yn ehangach.

Byddwn yn gweithio gyda gwefannau sy'n bodoli eisoes fel www.explore-bangor.wales i sicrhau bod yna fap (ac ap) siopa ac atyniadau cynhwysfawr ar gyfer Bangor. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n llawer haws dod o hyd i bopeth sydd gan Fangor i'w gynnig – o siopau moethus cudd, tafarndai hanesyddol, enwau mawr y stryd fawr a'r llefydd i gael tamaid i fwyta. Gan fod Explore-Bangor yn ddatblygiad newydd cyffrous i'r ddinas, nid yw'r AGB eisiau dyblygu'r gefnogaeth bresennol, ond ei nod fyddai ychwanegu ato a'i wella. Bydd AGB Bangor yn chwilio am ffyrdd o wneud y gorau o fanteision gwefannau o'r fath i fusnesau Bangor.

**Gwefan AGB gyda chyfeiriadur busnes lleol "Rwy'n Caru Bangor / I Love Bangor"**

Ar gyfer cynulleidfaoedd lleol, bydd yr AGB yn hwyluso ac yn cefnogi datblygiad gwefan penodol am y dref, ac arni bydd â gwybodaeth am fusnesau lleol, cyfeiriadur siopa, hamdden a gwasanaethau, bargeinion a thalebau, hysbysfwrdd swyddi gwag, newyddion a rhestrau digwyddiadau. Bydd y wefan hefyd yn cynnig gwybodaeth a'r diweddaraf am waith yr AGB yn y ddinas.

Ar gyfer busnesau'r AGB, bydd adran i aelodau, gyda hysbysfwrdd a fforwm yno i bob busnes fedru trafod a chodi pynciau; rheolwr yr AGB fydd yn cymedroli'r fforwm hwn, gan ymateb i unrhyw gwestiwn, awgrym a phroblem. Bydd gwaith yn cael ei wneud i gael gwefan AGB i gyrraedd cynifer o bobl â phosibl drwy gael sylw ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Trydar ac Instagram.

DRAFT

# 5 Dylanwadol ac integredig

Buddsoddiad yr AGB a ragwelir dros 5 mlynedd: £168,600

Bydd yr AGB am weithio gyda phartneriaid ar lefel leol a rhanbarthol i gynrychioli buddiannau cymuned busnesau Bangor er lles ei aelodau. Rhagwelir y bydd yr AGB yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor a Phartneriaeth Canol Tref Bangor i godi proffil a buddiannau Bangor a'i chymuned fusnes.

## Cyswllt Canol y Ddinas

Bydd AGB Bangor yn cyflogi rheolwr gweithgar ac amlwg i weithio ar ran yr aelodau a gwneud yn siŵr fod yr AGB yn ateb eu hanghenion. Bydd y rheolwr yn cael ei benodi a'i gyflogi gan AGB Bangor yn rhan-amser, gan fod yn bwynt cyswllt allweddol i fusnesau sy'n aelodau o'r AGB. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwdfrydig gyda digon o fynd ynddynt, bydd ganddynt brofiad a sgiliau cysylltiadau cyhoeddus, yn y cyfryngau cymdeithasol ac mewn meithrin a rheoli cysylltiadau. Bydd y rheolwr yn cydlynu'r gwaith o gyflawni prosiectau ar draws pob un o'r tri maes thematig yn ogystal â rheoli gweithgareddau'r AGB o ddydd i ddydd, a hynny'n cynnwys y canlynol:

- **Rheoli Prosiectau:** Bydd y rheolwr yn arwain prosiectau yn ogystal ag arwain cynllun datblygu strategol hirdymor i'r ddinas. Bydd gwaith y rheolwr yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd yr AGB.

- **Eiriolaeth (*advocate*)**: Bydd y rheolwr yn cynrychioli ac yn dadlau o blaid busnesau ardal yr AGB. Bydd yn cysylltu â rhanddeiliaid allanol a phartneriaid yn ardal yr AGB a'r cyffiniau, gan bob amser hyrwyddo buddiannau'r AGB a'r busnesau sy'n aelodau.

- **Cydlynu:** Bydd y rheolwr mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol, Cyngor y Ddinas, Llywodraeth Cymru, sefydliadau cymunedol a chyrff eraill, er mwyn lobïo ar ran yr AGB a manteisio ar gyfleoedd partneriaeth. Bydd rheolwr yr AGB yn gweithio gyda Phartneriaeth Canol y Dref i sicrhau bod eu meysydd gweithgarwch yn cael eu hintegreiddio'n dda, yn ychwanegu gwerth at ei gilydd ac yn osgoi unrhyw ddyblygu.

- **Creu cyllid ychwanegol:** Bydd y rheolwr yn gyfrifol am ddenu ffynonellau incwm ychwanegol ar gyfer yr AGB (yn ychwanegol at ardoll yr AGB), gan gynnwys cyd-drafod nawdd a pharatoi ceisiadau am gyllid.

DRAFT

## Tyfu Busnesau

Mae gan fusnesau a sefydliadau Bangor gyfoeth o wybodaeth a phrofiad mewn masnachu a gweithredu yn y ddinas. Nod yr AGB yw datblygu hyn yn ogystal â dod â gwybodaeth a phrofiad newydd sy'n berthnasol i anghenion busnesau ym Mangor.

- **Helpu busnesau sy'n bodoli eisoes i dyfu a gwella:** Bydd yr AGB yn cynnal digwyddiadau sgiliau a hyfforddiant, gan gynnwys seminarau datblygu busnes, a hyfforddiant a gwybodaeth ar bynciau fel y gyfraith, cyllid, y cyfryngau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata, safbwynt cwsmeriaid, cadwyni cyflenwi lleol a chynaliadwyedd. Bydd yr AGB, trwy ei rwydwaith busnesau, yn gallu cyfeirio aelodau at ffynonellau cymorth a'u helpu i gael gafael ar gefnogaeth drwy asiantaethau perthnasol, gan gynnwys Busnes Cymru.

- **Mentora ar gyfer busnesau sy'n dechrau:** Bydd yr AGB yn helpu i ddenu a sefydlu busnesau newydd llwyddiannus i ychwanegu at arlwy presennol ardal yr AGB a pheidio â dyblygu busnesau sydd eisoes yn bodoli trwy greu rhagor o gystadleuaeth. Bydd hyn yn gwella beth sydd gan Fangor i'w gynnig i bobl leol ac ymwelwyr. Un syniad hefyd yw cael cynllun mentora ar gyfer siopau sy'n dechrau. Bydd y cynllun mentora yn cynnig cymorth unigol i fusnesau newydd yn ardal yr AGB gyda gwybodaeth berthnasol i redeg eu busnes yn effeithiol, o gymorth TG i reoli cyfrifon.

- **Prynu ar y cyd:** Bydd yr AGB yn ymchwilio i gyfleoedd i helpu busnesau i gael gwell bargeinion, trwy brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin ar y cyd er mwyn arbed amser ac arian. Gallai hyn gynnwys pethau fel prynu nwyddau papur ac offer, neu gaffael gwasanaethau glanhau, hysbysebu neu wella siopau. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn ardaloedd gwella busnes eraill, a bydd o fantais i fusnesau'r AGB.

- **Gwobrau:** Bydd yr AGB yn cynnal rhaglen wobrwyo. Bydd y gwobrau yn dathlu busnesau llwyddiannus ardal yr AGB mewn amrywiaeth o gategorïau fel busnes bach y flwyddyn, entrepreneur y flwyddyn a gwasanaeth cwsmeriaid gorau'r flwyddyn. Bydd sylw i'r gwobrau yn codi ymwybyddiaeth o'r busnesau o safon uchel sydd ym Mangor. Bydd gwobrau hefyd i ddisgyblion ysgolion lleol a myfyrwyr yn y colegau a'r Brifysgol i feddwl am syniadau newydd ar gyfer canol y ddinas.

# 6 Sut bydd yr AGB yn gwneud y newidiadau hyn?

Dechreuodd y prosiect i ddatblygu AGB ym Mangor dros flwyddyn yn ôl, ac ers hynny rydym wedi ymgynghori â'r busnesau ynghylch y prif faterion sy'n effeithio ar ganol dinas Bangor.

Mae rhaglen o welliannau uchelgeisiol wedi cael eu datblygu gyda'r prif nod o wneud Bangor yn amgylchedd siopa a masnachu mwy ffyniannus a rhoi hwb i nifer yr ymwelwyr trwy gystadlu'n well yn erbyn canolfannau siopa llwyddiannus eraill. Creu AGB yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r amcanion hyn, yn ogystal ag i ddatblygu llais busnes unedig.


Caiff AGB ei arwain a'i ariannu gan fusnesau, ac mae'n cynnig cyfle i'r busnesau reoli'r ganolfan fasnachol eu hunain er mwyn cael newidiadau cadarnhaol yn yr ardal. Mae AGB yn fenter nid-er-elw sydd wedi'i ariannu gan fusnesau trwy ardoll (*levy*). Rydym yn cynnig bod busnesau yn talu ardoll sy'n 1.5% o werth ardrethol (*rateable value*) yr uned fusnes (sef hereditament). Y bwriad yw dod o hyd i incwm arall hefyd o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyllid grant, a bod yr incwm arall hwn yn hafal i'r incwm o'r ardollau.

Er mwyn sefydlu AGB, rhaid cael pleidlais i roi'r cyfle i fusnesau yn ardal yr AGB bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig. Os yw'r bleidlais o blaid sefydlu AGB, bydd yr AGB yn para am gyfnod o bum mlynedd, ac ar ôl hynny bydd angen cynnal ail bleidlais a bydd y broses yn cychwyn eto. Ers i'r AGB cyntaf gael ei sefydlu yn y Deyrnas Unedig yn 2005, mae mwy na 180 AGB wedi'u ffurfio erbyn hyn. Ar hyn o bryd, mae 3 AGB yng Nghymru yn Abertawe, Merthyr Tudful ac yn fwyaf diweddar yng Nghasnewydd, ac 11 AGB arall wrthi'n cael eu datblygu.

Mae'n bosibl mai'r ffordd orau o ddangos pa mor llwyddiannus yw model yr AGB yw'r canran sy'n pleidleisio drosto: 85% y tro cyntaf, ac yn uwch fyth yn y pleidleisiau i adnewyddu. Dyma ein cyfle i newid pethau. Cefnogwch AGB Bangor.

## 6.1 Ardal yr AGB

Mae’r map isod yn dangos y ffin ar gyfer AGB yng nghanol y ddinas. Caiff pob hereditament (eiddo) yn y ffin eu cynnwys yn yr AGB. Mae’r cyfeiriadau wedi’u codi o’r rhestr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (*National Non-Domestic Rates*).



Dyma’r strydoedd sydd wedi’u cynnwys yn llawn neu’n rhannol yn ardal yr AGB arfaethedig:

- Y Stryd Fawr / High Street
- Stryd yr Orsaf
- Ffordd Gwynedd
- Ffordd Deiniol
- Tan-y-Fynwent
- Stryd Waterloo
- Ffordd Garth
- Glanrafon
- Stryd y Deon / Dean Street
- Ashley Road
- Brick Street
- Stryd y Mynydd / Mount Street
- Teras Plas Llwyd
- Tan y Fynwent
- Ebenezer Place
- York Place
- Ffordd y Ffynnon
- Ffordd Sackville

DRAFT

## 6.2 Cyllideb yr AGB

Bydd AGB Bangor yn cael ei ariannu trwy ardoll (*levy*) ychwanegol bob blwyddyn, sef ardoll o 1.5% o werth ardrethol (*rateable value*) y busnes. Bydd yr ardoll i'w thalu gan bob busnes sy'n talu ardrethi busnes ac sydd â gwerth ardrethol dros £2,000.

Trwy'r ardoll, byddai AGB Bangor yn creu incwm o **£127,000 y flwyddyn**, neu **£635,000 dros gyfnod pum mlynedd** yr AGB. Byddai hwn yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn prosiectau a gwasanaethau er budd y busnesau.

Byddai'r arian hefyd yn helpu i gael gafael ar gyllid ychwanegol o ffynonellau eraill, gan gynnwys ennill cyllid grantiau a nawdd a chael cyfraniadau gwirfoddol gan landlordiaid a busnesau y tu allan i'r ffin. Bydd busnesau sydd â gwerth ardrethol sy'n is na £2,000 yn gallu cyfrannu'n wirfoddol er mwyn bod yn aelod gwirfoddol o'r AGB.

I dalu'r ardoll bydd yn rhaid i chi dalu un tâl blynyddol am bum mlynedd tuag at yr AGB. Bydd y taliad blynyddol hwn yn cael ei gyfrifo ar 1.5% o werth ardrethol eich eiddo unigol (hereditament). Felly, os ydych chi'n berchen ar fusnes sydd â gwerth ardrethol o £20,000, byddwch yn talu £300 y flwyddyn i'r AGB.

| Ardrethi Busnes 2015/16 | Gwerth Ardrethol | Ardoll Flynyddol | Cost Dyddiol Cyfatebol |
|---|---|---|---|
| Business Rates 2015/16 | Rateable Value | Annual Levy | Daily Equivalent Cost |
| £2,410 | £5,000 | £75 | 21c |
| £4,820 | £10,000 | £150 | 41c |
| £9,640 | £20,000 | £300 | £2.05 |
| £24,100 | £50,000 | £750 | £4.10 |
| £48,200 | £100,000 | £1,500 | £8.22 |

Buddsoddiad ydi'r ardoll. Yn gyfnewid am eich buddsoddiad, byddwch yn elwa o gael prosiectau fyddai ddim yn digwydd oni bai am yr AGB. Bydd cwmni'r AGB yn atebol am yr holl arian y bydd yn ei gael neu yn ei gynhyrchu. Bydd y cwmni yn adrodd wrth y busnesau beth maen nhw'n ei gael am eu buddsoddiad.

- Dim ond 33% o fusnesau fydd yn cyfrannu mwy na £1 y diwrnod, a dim ond 10% o fusnesau fydd yn cyfrannu mwy na £2.50 y diwrnod.

Cyllideb ***ddrafft*** yw hon.

| | | Blwyddyn 1 | Bl. 2 | Bl. 3 | Bl. 4 | Bl. 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm o ardollau ar 1.5% o'r gwerth ardrethol (yn seiliedig ar gyfradd casglu o 95%)** Levy income at 1.5% of rateable value (based on 95% collection rate) | | £ | £ | £ | £ | £ |
| | | **127,000** | **127,000** | **127,000** | **127,000** | **127,000** |
| **Costau craidd** | Casglu'r ardoll | 8,148 | 8,148 | 8,148 | 8,148 | 8,148 |
| | Rheoli a chydlynu | 5,443 | 5,443 | 5,443 | 5,443 | 5,443 |
| | Costau gweinyddol | 3,550 | 3,550 | 3,550 | 3,550 | 3,550 |
| | | **17,141** | **17,141** | **17,141** | **17,141** | **17,141** |
| **Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel** | Glanhau ychwanegol ac o'r newydd | 15,500 | 15,500 | 15,500 | 15,500 | 15,500 |
| | Gwyrddni newydd ac ychwanegol | 7,000 | 7,000 | 7,000 | 7,000 | 7,000 |
| | Arwyddion a gwybodaeth | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| | Gwella blaen y siopau | 7,000 | 7,000 | 7,000 | 7,000 | 7,000 |
| | Amgylchedd diogel | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 |
| | | **42,500** | **42,500** | **42,500** | **42,500** | **42,500** |
| **Hyrwyddo â balchder** | Digwyddiadau a gweithgareddau | 12,500 | 12,500 | 12,500 | 12,500 | 12,500 |
| | Cynllun Croesawu Ymwelwyr | 6,000 | 4,000 | 4,000 | 4,000 | 4,000 |
| | Cyfeiriadur lleol | 4,000 | 5,500 | 5,000 | 4,500 | 4,000 |
| | | **24,000** | **23,500** | **23,000** | **22,500** | **22,000** |
| **Dylanwadol ac integredig** | Costau Rheolwr | 14,225 | 14,725 | 15,225 | 15,725 | 16,225 |
| | Meithrin capasiti | 6,000 | 6,000 | 6,000 | 6,000 | 6,000 |
| | Mentora busnesau newydd | 6,000 | 6,000 | 6,000 | 6,000 | 6,000 |
| | Prynu ar y cyd | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 |
| | Gwobrau | 4,500 | 4,500 | 4,500 | 4,500 | 4,500 |
| | | **32,725** | **33,225** | **33,725** | **34,225** | **34,725** |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 114,866 | 114,866 | 114,866 | 114,866 | 114,866 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 127,000 | 127,000 | 127,000 | 127,000 | 127,000 |
| **Gweddill / Wrth Gefn / Dyled Ddrwg** | | 12,134 | 12,134 | 12,134 | 12,134 | 12,134 |
| **Gweddill / Wrth Gefn / Dyled Ddrwg (%)** | | 10% | 10% | 10% | 10% | 10% |

Mae'r costau craidd yn cynnwys prynu a chynnal meddalwedd casglu'r ardoll, rheoli llinell AGB i'r rheolwr a chostau swyddfa.

**Incwm yr AGB**

Mae'r gyllideb uchod yn seiliedig ar incwm o ardollau AGB yn unig. Rhagwelir y bydd incwm ychwanegol yn dod o gyfraniadau gwirfoddol gan fusnesau llai o faint a busnesau o'r tu allan i ffin yr AGB sy'n dymuno dod yn aelodau o'r AGB yn ogystal â chyfraniadau posibl gan landlordiaid, cyllid o grant a chyllid cyfatebol gan y sector cyhoeddus a phreifat.

**Cyfradd casglu'r ardollau a chyllideb wrth gefn**

Mae gan Gyngor Gwynedd gyfradd casglu ardrethi busnes (*business rates collection rate*) o 97.7% sy'n seiliedig ar y tair blynedd ariannol diwethaf. Er hynny, mae ffynonellau eraill yn dweud bod cyfradd casglu is yn fwy doeth. Mae Consortiwm Manwerthu Prydain (British Retail Consortium) yn cynghori llunio cyllideb sy'n seiliedig ar gyfradd casglu o 95% gyda chyllideb wrth gefn o ddim llai na 5% ar bob eitem gwariant. Am y rheswm hwn, mae incwm ardollau AGB yn y tabl uchod yn seiliedig ar gyfradd casglu ardollau o 95%, sy'n agos at gyfradd Cyngor Gwynedd, ond sy'n dal i fod yn ofalus. Mae cronfa wrth gefn ar gyfer dyled ddrwg neu weddill o 10% wedi'i chynnwys, yn unol ag argymhelliad y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi.

DRAFT

# 7 Ateb eich cwestiynau

**Pam rydym yn cynnal pleidlais AGB?**

Er mwyn creu AGB, mae'n rhaid i ni gynnal pleidlais ymysg y busnesau sy'n gymwys. Bydd y bleidlais yn gofyn cwestiwn syml: 'Ydych chi o blaid y cynigion ar gyfer Ardal Gwella Busnes (AGB) Bangor?' Er mwyn i'r AGB ddod i fodolaeth, rhaid i fwyafrif y rheiny sy'n pleidleisio bleidleisio o blaid. Ond rhaid i'w pleidleisiau hefyd gynrychioli mwyafrif cyfanswm gwerth ardrethol yr holl eiddo sy'n pleidleisio.

**Ydw i'n cael pleidleisio?**

Os ydi safle eich busnes o fewn ardal arfaethedig yr AGB a bod ganddo werth ardrethol sydd yn uwch na £2,000, rydych chi'n gymwys i bleidleisio ym mhleidlais yr AGB.

**Sut bydd AGB Bangor yn cael ei ariannu?**

Os bydd y bleidlais yn llwyddiannus, bydd AGB Bangor yn cael ei ariannu drwy ardoll flynyddol (*annual levy*) o 1.5% o werth ardrethol *pob* uned fusnes gymwys yn ardal yr AGB, boed y busnes hwnnw wedi pleidleisio o blaid neu yn erbyn yr AGB. Er enghraifft, os ydy gwerth ardrethol eich safle yn £10,000, byddwch chi'n talu £150 y flwyddyn. Bydd ardoll yr AGB yn orfodol i bob busnes a chorff cymwys arall, gan gynnwys yr awdurdod lleol.

**Casglu'r ardollau**

Bydd ardoll yr AGB yn cael ei chasglu'n flynyddol gan yr awdurdod lleol gyda'r ardrethi busnes (*business rates.* Bydd AGB Bangor yn glir ac yn dryloyw ynghylch sut y mae'n gwario'r arian. Bydd gwybodaeth a fydd yn cael ei diweddaru'n gyson am incwm a gwariant ar gael i bob aelod o'r AGB.

**Sicrhau bod gwasanaethau'r AGB yn rhai ychwanegol**

Bydd AGB yng Nghanol Dinas Bangor yn fenter dan arweiniad busnesau a'r cyllid wedi'i gasglu a'i reoli gennych chi. Rhaid i'r AGB gynnig gwasanaethau sydd yn ychwanegol at y rhai a gynigir gan yr awdurdod lleol ac asiantaethau statudol eraill. Bydd AGB Bangor yn llofnodi Cytundeb Sylfaenol (*Baseline Agreement*) gyda Chyngor Dinas Bangor. Bydd y cytundeb hwn yn cadarnhau beth mae'r awdurdod lleol eisoes yn ei wneud a bydd yr AGB yn monitro'r cytundeb hwn.

**Pa mor hir fydd yr AGB yn para?**

Bydd yr AGB yn para am bum mlynedd, sy'n golygu sicrwydd buddsoddiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Os bydd busnesau eisiau i'r AGB barhau y tu hwnt i'r cyfnod o bum mlynedd, byddwch chi'n gwneud y penderfyniad hwn trwy bleidleisio unwaith eto.

DRAFT

**Sut byddaf yn cael fy nghynrychioli?**

Os bydd y bleidlais AGB yn llwyddiannus, bydd AGB Bangor yn cael ei ailffurfio yn gwmni cyfyngedig trwy warant nid-er-elw (*not-for-profit company limited by guarantee*). Y bwriad yw cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (AGM) cyntaf ym mis Medi 2016 ar ôl i'r AGB ddechrau ar ei waith ar 1 Ebrill 2016. Bydd pob busnes sy'n talu'r ardoll yn gallu dod yn aelod o'r cwmni er mwyn bod yn gymwys i bleidleisio dros benderfyniadau'r cwmni. Gall unrhyw aelod sefyll i gael ei ethol i'r Bwrdd. Bydd busnesau sydd â gwerth ardrethol sy'n llai na £2,000 yn gallu dewis cyfrannu o leiaf £30 y flwyddyn o'u gwirfodd er mwyn cael bod yn aelod gwirfoddol o'r AGB; serch hynny dim ond aelodau sy'n talu'r ardoll yn orfodol fydd â hawliau pleidleisio llawn.

**Sut mae'r cynnig hwn yn cael ei ariannu?**

Mae'r cyllid ar gyfer hyn wedi dod gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Bangor, trwy Fforwm Busnes Bangor a Chyngor Gwynedd. Cafodd ymgynghorwyr eu penodi i gynnal astudiaeth ddichonoldeb (*feasibility study*) i weld a fyddai AGB i Fangor yn ymarferol bosibl ai peidio. Roedd yr astudiaeth honno yn gadarnhaol, felly mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddatblygu i'w roi i bleidlais. Cyngor Gwynedd fydd yn talu am y costau sydd ynghlwm â chynnal y bleidlais.

DRAFT

# 8 Rheoli'r AGB

Mae datblygu'r cynnig hwn i gael AGB ym Mangor wedi'i wneud gan grŵp brwdfrydig o gynrychiolwyr o Gyngor Dinas Bangor a Fforwm Busnes Bangor. Os bydd y bleidlais o blaid sefydlu'r AGB, mae'r unigolion hyn wedi cytuno i fynd â'r cwmni AGB newydd ymlaen i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf. Wedyn bydd cyfarwyddwyr yn cael eu hethol yn y Cyfarfod Cyffredinol cyntaf ym mis Medi 2016.

Bydd pob busnes sydd â gwerth ardrethol o £2,000 neu uwch yn gymwys i fod yn aelodau o'r AGB a gallant sefyll fel cyfarwyddwr. Os bydd busnesau wedi'u lleoli oddi fewn i ffin ardal yr AGB ond bod eu gwerth ardrethol yn is na £2,000, yna gallant wneud cyfraniad gwirfoddol o £30 y flwyddyn er mwyn dod yn aelodau. Byddwn yn sefydlu cwmni cyfyngedig trwy warant nid-er-elw.

**Bydd Bwrdd y cwmni newydd (AGB Bangor BID Cyf.) yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau a'r mathau canlynol o fusnesau:**

- Busnesau bychain
- Busnesau canolig eu maint
- Busnesau mawr
- Busnesau'r economi gyda'r nos
- Fforwm Busnes Bangor
- Prifysgol Bangor
- Sefydliad/mudiad cymunedol
- Cyngor Gwynedd (aelod anweithredol [*non-executive*] o'r Bwrdd)

Bydd **cyfarwyddwyr y Bwrdd** yn gwasanaethu'n wirfoddol. Bydd gan bob busnes sy'n talu ardoll yr AGB hawl i ddod yn aelod o'r cwmni a gallant sefyll i gael eu hethol yn aelodau o Fwrdd yr AGB yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd gofyn i bawb sy'n talu'r ardoll wneud cais i ddod yn aelod o gwmni'r AGB.

Bydd pawb sy'n talu ardoll yn gallu cael **rhan o gwmni'r AGB**, a sicrhau ei fod yn atebol am ei waith a'r cyllid. Bydd yr AGB yn cyflogi **rheolwr** er mwyn sicrhau bod prosiectau yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon ac i chwilio am gyllid ychwanegol, yn ogystal â bod yn brif bwynt cyswllt rhwng y rheiny sy'n talu ardoll a'r Bwrdd.

Bydd Cyngor Gwynedd yn **casglu'r ardoll** ar ran yr AGB.

DRAFT

## Addasu trefniadau'r AGB

Ni fydd modd gwneud diwygiadau mawr i drefniadau'r AGB heb ofyn am gymeradwyaeth ffurfiol gan aelodau'r AGB yn gyntaf. Bydd yn bosibl gwneud mân newidiadau i drefniadau'r AGB heb fynd i bleidlais, cyn belled ag nad ydynt yn addasu'r canlynol:

- Ardal ddaearyddol yr AGB
- Ardoll yr AGB mewn ffordd a fyddai'n:
    - golygu bod rhywun yn gorfod talu ardoll yr AGB a hwythau cyn hynny ddim yn gorfod gwneud; neu
    - codi faint o'r ardoll AGB sy'n rhaid ei dalu ac eithrio at ddibenion chwyddiant fel y disgrifwyd uchod.

Mewn achosion lle mae'n bosibl newid trefniadau'r AGB heb bleidlais addasu, bydd yn rhaid i Fwrdd llawn AGB Bangor benderfynu ar yr addasiad hwnnw.

## Mesur perfformiad

Bydd AGB Bangor yn gweithio mewn ffordd eglur a thryloyw a bydd yn atebol i'w aelodau. Bydd rheolwr yr AGB, ar y cyd â'r Bwrdd Rheoli, yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso sydd â thargedau blynyddol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs). Bydd y perfformiad yn erbyn y targedau hyn ac effaith rhaglen wella'r AGB yn cael eu monitro'n gyson a bydd adroddiadau ar gynnydd yn cael eu rhoi i'r rhai sy'n talu ardoll ac i'r gymuned fusnes ehangach. Bydd ffocws clir ar reoli perfformiad, cael effaith sy'n amlwg i bawb, a gallu dangos gwerth gwych am arian.

DRAFT

# 9 Amserlen AGB Bangor

Mae nifer o gamau i'w cymryd er mwyn sefydlu Ardal Gwella Busnes (AGB). Dyma amserlen bosibl ar gyfer y camau nesaf, ond byddwn yn diweddaru'r wefan i chi gael dyddiadau mwy penodol.

| | |
|---|---|
| Hysbysu pobl y bydd pleidlais drwy'r post yn digwydd | **31 Gorffennaf 2015** |
| Cael pecyn pleidleisio | **Erbyn 27 Awst 2015** |
| Y bleidlais drwy'r post yn cau | **5pm, Dydd Iau, 24 Medi 2015** |
| Cyhoeddi canlyniadau'r bleidlais | **Dydd Gwener, 25 Medi 2015** |
| Sefydlu cwmni'r AGB | **Hydref 2015 – Mawrth 2016** |
| Cwmni'r AGB yn mynd yn fyw, a chasglu'r ardoll gyntaf | **Ebrill 2016** |
| Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) yr AGB | **Medi 2016** |
| CCB Blwyddyn 2 | **Medi 2017** |
| CCB Blwyddyn 3 | **Medi 2018** |
| CCB Blwyddyn 4 | **Medi 2019** |
| CCB Blwyddyn 5 | **Medi 2020** |
| Pleidlais i adnewyddu'r AGB | **Rhagfyr 2020** |

**Bydd AGB Bangor yn rhedeg am 5 mlynedd o 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2021.**

DRAFT

## Rheolau'r Bleidlais

Bydd pob busnes sy'n talu ardrethi busnes yn cael pleidlais os ydynt:

- wedi'u rhestru ar y Rhestr Ardrethi Annomestig (*Non-Domestic Ratings List*) pan fydd Cyngor Gwynedd yn rhoi rhybudd o'r bleidlais
- wedi'u lleoli o fewn ffin yr AGB, a
- bod ganddynt werth ardrethol (*rateable value*) sy'n £2,000 neu uwch.

- Ym mis Awst 2015, bydd y pecyn pleidleisio yn cael ei anfon at gyfeiriad yr hereditament (eiddo).
- Rhaid dychwelyd pob pleidlais erbyn 5pm nos Iau 24 Medi 2015.
- Er mwyn i'r AGB fynd yn ei flaen, rhaid bodloni dau amod:
  - rhaid bod dros 50% o'r busnesau sy'n pleidleisio yn pleidleisio o blaid.
  - rhaid i gyfanswm gwerth ardrethol y pleidleisiau sydd o blaid fod dros 50% o gyfanswm gwerth ardrethol yr holl bleidleisiau sy'n cael eu bwrw.
- Yn ôl y ddeddfwriaeth, os bydd yr amodau hyn yn cael eu cyflawni, bydd yr ardoll o 1.5% yn orfodol ar bob busnes cymwys, boed nhw wedi pleidleisio o blaid neu beidio.
- Bydd pleidlais o blaid AGB Bangor yn golygu y bydd y gweithgareddau ychwanegol sydd wedi cael eu haddo yn dechrau digwydd ym mis Ebrill 2016. Bydd yr anfonebau cyntaf yn cael eu hanfon ym mis Mawrth 2016 er mwyn paratoi ar gyfer hyn.
- Nid oes modd newid ffiniau ardal yr AGB, newid canran ardoll yr AGB na meini prawf y busnesau cymwys unrhyw bryd yn ystod oes pum mlynedd yr AGB heb yn gyntaf gael Pleidlais Addasu llawn. Pwrpas hyn yw diogelu'r rhai sy'n talu ardrethi a rhoi sicrwydd o ran costau ardoll yr AGB.
- Bwriad cwmni'r AGB yw masnachu fel cwmni sydd ddim yn gwneud elw a'r cwmni hwn fydd yn rhedeg yr AGB.

DRAFT

# 10 Mae eich pleidlais yn cyfrif!

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae busnesau yng nghanol y ddinas wedi bod yn frwdfrydig iawn dros gael Ardal Gwella Busnes ym Mangor. Dyma'r amser rŵan i gael ffordd gynaliadwy a llwyddiannus o reoli canol ein dinas am flynyddoedd i ddod.
CEFNOGWCH YR AGB – PLEIDLEISIWCH DROS FANGOR

DRAFT

# 11 Ymchwilio ac astudiaeth ddichonoldeb

Mae'r gwaith o ymchwilio a datblygu AGB Bangor wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Bangor, trwy Fforwm Busnes Bangor a Chyngor Gwynedd. Cafodd astudiaeth ddichonoldeb (*feasibility study*) ei llunio ym mis Rhagfyr 2014 i weld a fyddai Ardal Gwella Busnes yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r problemau sydd yng nghanol y ddinas, gyda'r ffocws ar wella amodau masnachu.

Ar ôl dadansoddi gwerth ardrethol busnesau a chynnal arolwg o'r busnesau sydd o fewn ffin arfaethedig yr AGB, daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod sefydlu AGB llwyddiannus nid yn unig yn syniad cyffrous a gwerthfawr i fusnesau a chymuned ehangach Bangor, ond ei fod hefyd yn ddichonadwy ac yn ymarferol bosibl. Mae cefnogaeth a galw am AGB; byddai'n bosibl yn ariannol; byddai'n gallu gweithredu ar anghenion penodol busnesau AGB dros y tymor hir; a byddai'n gallu ychwanegu gwerth at yr ardoll ar fusnesau trwy integreiddio, partneriaethau, grym a dylanwad.

Fe wnaeth 84 busnes lenwi holiadur yn yr ymchwil, a dywedodd 65 ohonynt (77%) eu bod yn credu bod creu AGB ar gyfer Bangor yn syniad da mewn egwyddor a dylid ei roi i bleidlais. Dim ond un person atebodd 'na' ac nid oedd y gweddill yn siŵr.

Roedd yr 84 holiadur yn cynrychioli cyfradd ymateb o 25% o'r busnesau sydd o fewn ffiniau'r AGB. O ddiystyru perchnogion sawl eiddo, adeiladau cyngor y ddinas a'r sir, meysydd parcio, banciau a pheiriannau twll yn y wal, gorsafoedd heddlu, llyfrgelloedd, gorsafoedd bysiau a safleoedd eraill heb rif ffôn uniongyrchol neu heb fanylion cyswllt dilys, 39% oedd cyfradd yr ymatebion. Roedd hanner y bobl a holwyd yn cynrychioli busnesau annibynnol.

# 12 Dogfennau ategol

Mae dogfennau eraill sy’n gysylltiedig â’r AGB i’w cael ar wefan yr AGB www.bangorbid.co.uk.

Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cytundeb Sylfaenol (*Baseline Agreement*) drafft rhwng yr AGB a Chyngor Gwynedd, gan gynnwys datganiad o’r gwasanaethau sylfaenol y mae Cyngor Gwynedd yn eu darparu ar hyn o bryd.
- Cytundeb Gweithredu (*Operating Agreement*) drafft rhwng yr AGB a Chyngor Gwynedd, sy’n nodi’r telerau o ran sut bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel yr awdurdod bilio a phleidleisio ar ran yr AGB.

Mae’r adnoddau eraill yn cynnwys:

- Llawlyfr AGB Llywodraeth Cymru
- Astudiaethau achos a dolenni i Ardaloedd Gwella Busnes eraill yn y Deyrnas Unedig

I gael rhagor o wybodaeth am AGB Bangor a sut y gallwch chi fod yn rhan, cysylltwch â chadeirydd yr AGB:

*(name and contact details here)*

DRAFT

# Atodiad 1: Gwybodaeth hanfodol

**Geirfa:**
Ardal Gwella Busnes (AGB) = *Business Improvement District (BID*)
ardoll = *levy*
ardrethi annomestig = *non-domestic rates*
cynllun rhyddhad ardrethi = *rate relief scheme*
cymwys = *eligible*
gwerth ardrethol = *rateable value*

## Pwy sy'n talu'r ardoll?

1. Y person fydd yn gyfrifol am dalu ardoll yr AGB yw'r person sy'n gyfrifol am ardrethi annomestig mewn perthynas â'r eiddo.
2. Bydd ardoll yr AGB yn berthnasol i bob eiddo sydd â chyfeiriad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) o fewn ffin ardal AGB Bangor.
3. Ni fydd busnesau sydd â gwerth ardrethol sy'n is na £2,000 yn gymwys i dalu ardoll yr AGB ond gallant gyfrannu o'u gwirfodd er mwyn dod yn aelodau gwirfoddol o'r AGB.

## Dyddiadau pwysig

1. Bydd yr AGB arfaethedig yn para am 5 blwyddyn ariannol olynol o fis Ebrill 2016 ymlaen.
2. Bydd gan bob busnes cymwys hawl i bleidleisio ynghylch y cynnig AGB mewn pleidlais drwy'r bost a fydd yn para am 28 diwrnod. Bydd y pleidleisio yn dechrau ar 27 Awst 2015 ac yn cau am 5pm nos Iau 24 Medi 2015. Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi ddydd Gwener 25 Medi ar wefan yr AGB.

## Yr Ardoll

1. Ardoll yr AGB fydd 1.5% o werth ardrethol pob eiddo am y pum mlynedd lawn fel y manylir yn rhestr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol 2010.
2. Ni fydd gwahaniaeth rhwng eiddo gwag neu eiddo wedi'i feddiannu.
3. Ni fydd ardoll yr AGB wedi'i heffeithio gan y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bychain.
4. Yr awdurdod lleol fydd yn casglu ardoll yr AGB ac yn cadw'r symiau hynny yng Nghyfrif Refeniw AGB.
5. Bydd yr ardoll yn cael ei chyfrifo ar gyfer pob eiddo yn flynyddol ac yn cael ei hanfonebu ar gyfer dechrau pob blwyddyn yr AGB. Nid yw'r trefniant hwn wedi'i gadarnhau eto. Gallai casgliadau amlach fod yn bosibl yn dibynnu ar y costau cysylltiedig o wneud hynny.
6. Bydd yr ardoll yn cael ei chodi yn unol â gweithdrefnau'r diwrnod codi treth (*chargeable day procedures*). Bydd yn seiliedig ar gofnodion rhestr ardrethi 2010 ar gyfer pob eiddo yn ardal yr AGB a'r cofnodion hynny wedi'u cymryd ar y dyddiad pan fydd Cyngor

Gwynedd yn rhoi rhybudd o'r bleidlais. Bydd hyn yn sicrhau bod rhestr y gwerth ardrethol a ddefnyddir i greu'r biliau blynyddol yn gyflawn ac yn gywir.

7. Bydd y Cytundeb Gweithredu ar gael os bydd darpar dalwr ardoll yn gofyn amdano.
8. Gallai busnesau ddechrau gorfod talu'r ardoll er nad oeddent yn gorfod gwneud hynny'n flaenorol, er enghraifft, pan nad oedd eiddo yn ardal yr AGB ar y rhestr ardrethi ond fod yr eiddo yn cael ei ychwanegu at y rhestr wedi hynny.
9. Y cyfnod y codir ffi arno fydd tymor yr AGB o bum mlynedd o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Ni fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ailbrisio ardrethi yn 2017, oni bai fod eiddo yn ymddangos am y tro cyntaf ar y rhestr honno. Yn yr achos hwnnw, y gwerth ardrethol sydd ar y rhestr honno fydd yn cael ei ddefnyddio. Yr eithriad fydd unrhyw newid yn nefnydd neu newid ffisegol i eiddo neu hereditament.
10. Defnyddir pob mecanwaith sydd ar gael i fynd ar ôl busnes sydd ddim wedi talu ardoll yr AGB.

DRAFT